



21 Ionawr

Annwyl Riant / Warcheidwad

Rwy'n ysgrifennu atoch i rannu gwybodaeth gyda chi am ddatblygiadau diweddar o ran yr ysgol. Fel y gwyddoch, bu Estyn ar ymweliad rhwng Tachwedd 16 a 20 a bellach, heddiw, mae'r adroddiad swyddogol wedi cyrraedd. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan yr ysgol o dan y dudalen Dogfennau ac ar wefan Estyn i chi ei darllen a braf cofnodi bod yr arolygwyr yn nodi bod Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn ysgol 'dda' gyda nodweddion 'rhagorol.' Hoffem ddiolch o galon i'r staff am eu gwaith caled ac yn arbennig i'r disgyblion am eu hymdrech a'u hymddygiad rhagorol.

Hoffem nodi hefyd erbyn diwedd wythnos nesaf, bydd gwybodaeth ar gategori newydd yr ysgol yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar wefan My Local School. Unwaith eto, dyma ddarllen diddorol sy'n dangos yr ysgol ar ei gorau.

Diolch i chithau fel rhieni am eich cefnogaeth sy'n sicrhau ein bod ni fel ysgol yn cyrraedd y safonau uchaf.

Er gwybodaeth i chi hefyd, er mwyn eich galluogi os ydych yn dymuno i drefnu eich gwyliau haf, fe fydd tymor yr Hydref 2016 yn ail gychwyn ar Fedi y Sed i'r disgyblion.

Yn gywir,

Dear Parent / Guardian

*I write to inform you about recent developments regarding the school. As you know, Estyn visited between November 16 and 20 and today, the official report has been released. The report is available on the school website under the Documents page and on the Estyn website for you to read. The report states that Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin is a 'good' school with some 'excellent' features. I would like to thank the staff for their hard work and especially the students for their efforts and their excellent behaviour.*

*I would also like to note that, by the end of next week, the school's new category will be published by the Welsh Assembly Government on the website 'My Local School.' Again, this makes interesting reading and shows the school at its best.*

*I wish to thank you as parents for your continued support that ensures that we, as a school, can achieve the highest possible standard.*

*Also, for your information, and for you to enable you to arrange your summer holidays, the Autumn 2016 term will begin for pupils on Monday, September the 5th.*

Yours faithfully

Dr Llinos Jones  
Pennaeth / Headteacher

